# Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 14eg o Ionawr 2021

1. Presennol: Cynghorwyr
   M. Lynch; L A James; J. Griffiths; E. Jones; M. Baines; J. Pierce; D. W. Jones; J Lewis
   a'r Clerc E Jones

2. Ymddiheuriadau:
   Cynghorwyr H Griffiths; T A Williams; D. Jones-Morris; a B.Jones;
   Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cyng D W Jones wnaeth hefyd offrymu g weddi cyn croesawy pawb oedd bresennol.

3. Datgan buddiant
   Eto esbonwyd tae unrhyw un angen datgan buddiant byddai rhaid gwneud hynny ar lafar i'r Clerc allu ei gofnodi ag i'r Cynghorydd wedyn anfon ffurflen wedi ei llofnodi
   Mi fu datgan o unrhyw fuddiant

4. Derbyn cofnodion 10fed o Rhagfyr 2020 – Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir
   Cyng J Pierce yn cynnig a Cyng E Jones yn eilio
5. Materion yn codi o'r cofnodion
   a. Llwybr Glan Menai – Dim datrusiad wedi dod ymlaen a'r arwyddion yn dal i fyny
   b. Logo Newydd – Cyng L A James wedi cael cyswllt ond dim manylder i'w rannu gan fod angen trafodaethau pellach - Cyng L A James am barhau drafod
   c. Septic Tanc Glasinfryn – Clerc wedi cael cyfarfod ar y safle gyda Mr W Font cyn y Nadolig a'r arbennigwr wedi dod yn ol i ddatgan fod pibell garffosiaeth gyhoeddus ar y trac sy'n arwain tuag at y maes parcio
      Ei awgrym oedd i ni holi adeiladwr i archwylio'r posibilrwydd cael cysylltu a'r bibell honno fyddai'n gwneud i ffwrdd yn gyfan gwbwl a'r tanc septic.
      Y Clerc wedi holi dau gontarctwr oedd wedi ei adnabod fel rhai allai ymdopi a'r gwaith dan sylw.
      **Disgwyl ymateb ganddynt**
6. Materion Ariannol
   a. Nid oedd cyfarfod o'r I B C wedi ei gynnal yn ystod Rhagfyr felly dim ond rhannu mantolen ariannol oedd yn dangos ein sefyllfa ariannol bresennol oedd £33,995.17 yn y cyfrif Cyfredol a £25,037.19 yn y cyfrif Cadw
   b. Canolfan Glasinfryn - Dim datblygiad pellach ynglyn a thrsglwyddo'r teitl i enw'r Cyngor
   c. Ganolfan Newydd - Cynfyngiadau newydd wedi golygu bod y gwaith yn rhedeg ychydig ar ol amser oherwydd methu cael nwyddau fel ffenestri a.y.y.b.
      i. Ochr trydannol wedi ei gytuno arno
      ii. Offer y gegin wedi ei gytuno arno
      iii. Deunydd y lloriau wedi eu gytuno arno
      iv. BT am ail-gysylltu llinnell i'r Ganolfan Bresennol ar gost Wynne's ond bydd hynny yn golygu bydd yn haws trosglwyddo'r llennell i'r Ganolfan Newydd unwaith bydd honno yn barod

   Angen holi'r swyddogion os ydi'n bosib crynhoi y costau ychwanegol at eu gilydd
   Cyng L A James am holi
   Diolchwyd i'r Cyng James am ei ymrwymiad i gadw mewn cyswllt hefo swyddogion Gwynedd ar ein rhan
   d. Archwilwyr allannol Dim i'w adrodd ymhellach

**7.** Materion y Clerc

- Diffib Y 4 diffib newydd bellach wedi eu gosod ag yn weithredol yn Glasinfryn, Rhydygroes, Minffordd ag ar Stad Y Rhos wrth 'Twll yn y Wal'
- Septic Tanc Glasinfryn Gweler materion yn codi
- Canolfan Glasinfryn Gweler materion yn codi

'Roedd sawl cais am nawdd wedi dod yn ystod Rhagfyr a Ionawr ond cytunwyd i basio'r trafodaethau cychwynnol i'r I B C fyddai yn cael ei gynnal 27ain o Ionawr

**8**. Materion y Cynghorwyr

- Cyng B Jones Wrth ddatgan ei ymddiheuriad 'roedd y Cyng wedi adrodd fod cyflwr Lon Dywyll ddrwg oherwydd y pridd sydd bellach yn ymestyn ymhell oddiwrth y cloddiau **Clerc i gysylltu a Gwynedd**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10